Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# Rhestr o lyfrau i bobl ifanc ar thema'r amgylchedd a newid hinsawdd

## Dysgu yn ein hamgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer


### **Academi Mr Dŵm** gan Jon Gower




Nofel wreiddiol, garlamus ar gyfer yr arddegau cynnar, gan un o awduron mwyaf poblogaidd Cymru. Mae pethau wedi newid ers sefydlu Academi Mr Dŵm. Er gwell i rai, er gwaeth i Daf. Ond yn ffodus i Daf, mae ei ffrind, Heti, yn gallu cyfathrebu â phob anifail dan haul. Gyda chymorth system ddiogelwch yr academi (teigr anferth) mae Heti'n mynd ati i geisio achub Daf.

*94 Tudalen* | *21.12.2021*


### **Achub Anifail: Antur Arctig** gan J. Burchett a S. Vogler




Mae arth wen wedi'i darganfod yn farw mewn pentref yn Alasga. Mae'n anarferol iawn i arth wen ddod i blith pobl, ac felly mae rhywbeth mawr o'i le. Unwaith eto, caiff yr efeilliaid Ben a Sara eu gyrru i archwilio'r achos. Addasiad Cymraeg Siân Lewis o *Polar Meltdown*.

*142 tudalen* | *28.10.2015*


### **Achub Anifail: Dilyn Dolffin** gan J. Burchett a S. Vogler




Ar gyfer eu tasg ddiweddaraf, mae Ben a Sara ar eu ffordd i Fecsico. Yno mae perchennog parc môr wedi dympio dolffin ifanc ym Môr y Caribî. Dyw'r dolffin bach ddim yn gyfarwydd â byw yn y gwyllt. Rhaid i Ben a Sara fynd i chwilio amdano, cyn iddo gael niwed. Ond mae storm ar y ffordd ac mae'r môr yn beryglus iawn...

*144 tudalen* | *05.10.2016*


### **Achub Anifail: Llosgi Lloches** gan J. Burchett a S. Vogler




Y diweddaraf mewn cyfres o straeon antur cyffrous am frawd a chwaer sy'n gwneud eu gorau glas i warchod anifeiliaid prin sydd dan fygythiad ledled y byd.

*144 tudalen* | *01.06.2016*

## **Cors Caron** gan Meleri Wyn James




'Ble yffach wyt ti, Caron fach? O, na... Dwyt ti ddim ar y gors, wyt ti?! Gobeithio i'r nefoedd nad wyt ti ar y gors.' Mae'r gors hudolus fel cartref i Caron 15 oed ac Iwan, ei ffrind gorau. Sut y gall hi fod ar goll yno felly? Nofel ddirgelwch sy'n symud yn gyflym rhwng dau fyd, ac am berthyn, cariad a'r newid yn ein hagwedd at yr amgylchedd.

*192 tudalen* **|** *25.05.2022*


## **Cyfres y Dderwen: Dim** gan Dafydd Chilton




Nofel yng nghyfres y Dderwen. Stori am ymdrech dyn i oroesi mewn byd o rymoedd sy'n llawer fwy pwerus nag ef ei hun, yn benodol felly rymoedd Dyn a Natur. Sut mae dyn i ddelio â'r grymoedd hyn? Drwy wrthryfela neu drwy gydymffurfio?

*139 tudalen* **|** *21.12.2016*


## **Cyfres y Melanai: Efa** gan Bethan Gwanas




Y nofel gyntaf mewn trioleg ar gyfer yr arddegau cynnar. Mae Efa yn ddarpar frenhines gwlad Melanai ond mae hi'n gyndyn i ddilyn yr hen draddodiadau, gan gynnwys lladd ei mam, y frenhines, ar ei phen-blwydd yn 16 oed. Yn y stori, dilynwn Efa yn brwydro yn erbyn ei thynged ei hun. Bydd nofel 2 a 3 yn cael eu cyhoeddi yn 2018 a 2019.

*144 tudalen* **|** *15.11.2017*


## **Cyfres y Melanai: Y Diffeithwch Du gan Bethan Gwanas**




Mae'r nofel yn olrhain hanes Efa, sy'n dywysoges ar y Melanai, ar ôl iddi hi a'i ffrindiau ddianc o'r Palas rhag iddi orfod lladd ei mam, y frenhines, yn dilyn traddodiad y wlad. Maen nhw wedi cyrraedd Y Diffeithwch Du sydd yn llawn peryglon ac yn cwrdd â chawr o'r enw Id, a nifer o anifeiliaid a sefyllfaoedd peryglus a heriol. Ail deitl mewn trioleg.

*192 tudalen* **|** *11.10.2018*


## **Cyfres y Melanai: Edenia** gan Bethan Gwanas




Dyma'r nofel olaf yn nhrioleg Y MELANAI am Efa a'i chriw. Ar ôl iddyn nhw ddianc i'r Diffeithwch Du rhag i Efa orfod lladd ei mam, y frenhines, ar ei phen-blwydd yn 16 oed, maen nhw bellach wedi cyrraedd tir Edenia lle maen nhw'n dod o hyd i lwyth arall o bobl. Pa fath o groeso gawn nhw yno a beth fydd yn digwydd i Efa ar ddiwedd y drioleg?

208 tudalen **|** *14.03.2019*


## **Cyfres Yma: Yr Ynys** gan Lleucu Roberts




Y nofel gyntaf mewn trioleg ar gyfer yr arddegau hŷn. Mae Gwawr a Cai yn paratoi ar gyfer taith yn ôl i'r Henwlad er mwyn darganfod mwy am fywyd eu hynafiaid cyn ffrwydrad dinistriol y Diwedd Mawr a gafodd effaith tyngedfennol ar y byd. Bydd nofelau 2 a 3 yn cael eu cyhoeddi yn 2018 a 2019.

*144 tudalen* | *15.11.2017*


## **Cyfres Yma: Hadau** gan Lleucu Roberts




Mae Hadau wedi ei gosod yn y dyfodol ar ôl i fom niwclear ddinistrio gorllewin Ewrop. Roedd Cymry wedi sefydlu cymuned mewn ynys ger Norwy a Cai a Gwawr wedi eu magu yno. Maen nhw erbyn hyn wedi cyrraedd tref Aberystwyth yn yr henwlad (Cymru) ac yn dod o hyd i lwyth cyntefig sydd yn prysur redeg mas o fwyd a hadau i dyfu cnydau.

*192 tudalen* | *11.10.2018*


## **Cyfres Yma: Afallon** gan Lleucu Roberts




Dyma nofel olaf trioleg gyffrous Lleucu Roberts sydd wedi ei gosod yn Aberystwyth ôl-apocalyptaidd yn 2141. Pan mae rhai'n cael eu cipio o Gymru, i ble maen nhw'n mynd? Ar yr wyneb mae'r lle fel Afallon ond mae themâu dwys ynddi □ rôl merched mewn cymdeithas, trin pobol sydd yn 'wahanol', rhyddid a chaethiwed, yn ogystal ag elfennau o 'Big Brother' a 'The Handmaiden's Tale'.

*192 tudalen* | *12.03.2019*


## **Llyfr Glas Nebo** gan Manon Steffan Ros




Nofel arobryn y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 2018. Dyma stori ryfeddol Siôn, a orfodwyd i dyfu'n ddyn yn sydyn iawn, ei fam Rowenna, a'i chwaer fach, Dwynwen. Mae'r hanes hynod wedi'i gofnodi mewn llyfr nodiadau glas wrth geisio goroesi ar ôl Y Terfyn - yr hunllef a gafodd effaith ddychrynllyd ar drigolion pentref Nebo a thu hwnt.

*144 tudalen* | *18.02.2020*


## **O'r Tywyllwch** gan Mair Wynn Hughes




Stori afaelgar, hynod berthnasol i'n dyddiau ni. Mae'r byd wedi'i lygru a rhaid i bawb ffoi i'r Ddinas o dan y ddaear. Beth mae Hywyn am ei wneud â Sam ei gi, gan nad oes hawl mynd ag anifeiliaid i'r Ddinas? Sut mae Hywyn a'i ffrind Meilyr am dwyllo'r awdurdodau wrth i'r milwyr gadw llygad barcud ar bawb?

*128 tudalen* | *01.09.2021*

## **Saith Oes Efa** gan Lleucu Roberts




Cefnogi Seimon mae gwraig fferm Cesel Ucha yn ei wneud o fore gwyn tan nos. Pan ddaw'r tyrfe i aflonyddu arno, mae hi'n gorfod camu i'r blaen a rhedeg y lle nes bod y storm wedi cilio. Ond un diwrnod, daw rhywbeth i darfu ar fywydau'r ddau. Gwaith arobryn y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr, 2014.

*128 tudalen* | *11.02.2020*

Diolch i **Gyngor Llyfrau Cymru** am eu cymorth i greu'r rhestr hon.

## Eisiau syniadau am lyfrau ar yr un thema yn Saesneg?

Mae rhestr ar gael ar ein tudalen '**Natural Resources Wales / Language, literacy and communication outdoors**'.

## Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:

**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**0300 065 3000**